COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 143

**Amseru:**

**Teitl: Cyfraniad ariannol tuag at newid offer yr Uned Cymorth Technegol/Tîm Troseddu Trefnedig a Throseddau Difrifol**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae CHTh wedi derbyn cais am arian ar gyfer prynu system radio gudd ar gyfer y Tîm Troseddu Trefnedig a Throseddau Difrifol yn ei frwydr i fynd i'r afael â throseddau difrifol a throseddu trefnedig, gan gynnwys masnachu mewn cyffuriau ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r offer presennol o oed sylweddol, ac er mwyn cynnal y gallu cudd, mae angen newid y system am uned fwy effeithiol sy'n darparu gwell amrediad trawsyriant, yn defnyddio llai o bŵer, ac yn llai o ran maint, gan wella cyfleoedd ar gyfer cuddio.

Penderfynodd CHTh gyfrannu £13,405 o'r Gyllideb Fforffedu tuag at offer newydd.

**Argymhelliad:**
Cymeradwyo'r cyfraniad o £13,405 o'r gyllideb Fforffedu er mwyn prynu'r offer cudd newydd ar gyfer yr Uned Cymorth Technegol/Tîm Troseddu Trefnedig a Throseddau Difrifol.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 25.9.2019